

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2022**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog/Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Gwasanaethau a Rheoleiddir (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2022.

Julie Morgan

**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol  
27 Ebrill 2022**

## **RHAN 1**

### **1. Disgrifiad**

Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ('Deddf 2016') yn nodi'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol, a rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae'n rhoi ystod o bwerau gwneud rheoliadau ac is-ddeddfwriaeth eraill i Weinidogion Cymru.

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud â *Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2022* ("Rheoliadau Diwygio 2022") sy'n gwneud newidiadau i *Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017* ("Rheoliadau Datganiadau Blynyddol 2017").

Diben y Rheoliadau Diwygio 2022 yw gohirio, tan 31 Hydref 2022, y gofyniad i ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig gyflwyno datganiad blynyddol mewn perthynas â phob un o flynyddoedd ariannol 2018-19, 2019-20, 2020-21 a 2021-22, pan fyddant wedi'u cofrestru o dan Ddeddf 2016, i Weinidogion Cymru (yn ymarferol, i Arolygiaeth Gofal Cymru). Maent hefyd yn lleihau'r cynnwys sy'n ofynnol ar gyfer datganiadau blynyddol 2021-22, yn unol â'r gofynion ar gyfer blynyddoedd blaenorol.

Mae gwasanaethau a reoleiddir yn cynnwys cartref gofal, llety diogel, canolfan breswyl i deuluoedd, mabwysiadu, maethu, lleoli oedolion, eiriolaeth a reoleiddir a gwasanaethau cymorth cartref.

Mae Rheoliadau Diwygio 2022 yn cael eu gosod gerbron y Senedd o dan y weithdrefn negyddol a byddant yn dod i rym ar 20 Mai 2022.

### **2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Nid oes unrhyw faterion penodol wedi'u nodi.

### **3. Y cefndir deddfwriaethol**

Mae Adran 10 o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr gwasanaethau a reoleiddir gyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru (yn ymarferol, i Arolygiaeth Gofal Cymru ("AGC")). Rhaid i'r datganiadau blynyddol hyn gael eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru (yn ymarferol gwneir hyn gan AGC). Diben datganiadau blynyddol yw darparu gwybodaeth wrthrychol, dryloyw a chymaradwy i'r cyhoedd am wasanaethau a reoleiddir.

Gwneir Rheoliadau Diwygio 2022 o dan bwerau yn adran 10(4) o Ddeddf 2016 sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno datganiadau blynyddol.

Gwneir Rheoliadau Diwygio 2022 hefyd o dan adran 187(1) o Ddeddf 2016, sy'n pennu bod rheoliadau a wneir o dan Ddeddf 2016 i'w gwneud drwy offeryn statudol ac yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth wahanol, ar gyfer achosion gwahanol ac ar gyfer gwahanol feysydd. Maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

#### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Diben Rheoliadau Diwygio 2022 yw gohirio, tan 31 Hydref 2022, y gofyniad i ddarparwyr gyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru (yn ymarferol, i AGC) am bob blwyddyn y maent wedi'u cofrestru, er mwyn lleddfu'r pwysau ar wasanaethau a reoleiddir yn ystod y pandemig.

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2021 ("Rheoliadau Diwygio 2021") – a wnaed ym mis Mawrth 2021 – yn datgymhwyso nifer o ofynion o fewn Rheoliadau Datganiadau Blynyddol 2017 mewn perthynas â datganiadau blynyddol ar gyfer unrhyw un o flynyddoedd ariannol 2018-19, 2019-20 a 2020-21.

Y rheoliadau o fewn Rheoliadau Datganiadau Blynyddol 2017 sydd wedi'u datgymhwyso yw rheoliadau 3, 4, 5, 6 ac Atodlen 1. I grynhoi, mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch hyfforddiant; mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch cynllunio'r gweithlu; ac mae rheoliadau 5, 6 a'r Atodlen yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu mathau ychwanegol o wybodaeth sy'n berthnasol i ddarparu gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau llety diogel, gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau cymorth cartref.

Arweiniodd hyn at lai o ofyniad o ran y datganiad blynyddol mewn perthynas â'r blynyddoedd ariannol hynny.

Effaith ychwanegu'r datganiad blynyddol ar gyfer 2021-22 at reoliad 3 o Reoliadau Diwygio 2022 yw lleihau cynnwys gofynnol y datganiad blynyddol ar gyfer 2021-22, yn unol â'r rhai ar gyfer blynyddoedd blaenorol. Mae'r tabl yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi mwy o fanylion am yr wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer datganiad lawn o'i gymharu â datganiad byrrach.

#### **5. Ymgynghori**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Rheoliadau Diwygio hyn.

## RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2022 ("Rheoliadau Diwygio 2022")

Mae dau o opsiynau wedi'u hystyried wrth ddadansoddi'r costau, y manteision a'r risgiau ar gyfer Rheoliadau Diwygio 2022. Dyma'r opsiynau:

- **Opsiwn un:** Gwneud dim – peidio â gwneud rheoliadau diwygio newydd a'i gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gyflwyno datganiad blynyddol llawn ar gyfer 2021-22 erbyn 26 Mai 2022, ynghyd â datganiadau blynyddol byrrach ar gyfer pob blwyddyn flaenorol y maent wedi'u cofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016").
- **Opsiwn dau:** Gwneud rheoliadau diwygio newydd i ohirio ymhellach y dyddiad ar gyfer cyflwyno'r holl ddatganiadau blynyddol, o ddim hwyrach na 26 Mai 2022 i 31 Hydref 2022 a lleihau cynnwys gofynnol datganiad blynyddol 2021-22, yn unol â'r gofynion ar gyfer blynyddoedd blaenorol.

### Opsiwn un: Gwneud dim

#### Costau

Bydd darparwyr yn wynebu costau amser ychwanegol os bydd yn rhaid iddynt gwblhau a chyflwyno datganiad blynyddol llawn ar gyfer 2021-2022 yn ogystal â chwblhau'r datganiadau byrrach ar gyfer blynyddoedd blaenorol y maent wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ("AGC") o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 erbyn 26 Mai 2022.

Bydd datganiad blynyddol llawn yn cymryd llawer mwy o amser i ddarparwyr ei chwblhau oherwydd y dosbarthiadau ychwanegol a manylder yr wybodaeth sy'n ofynnol na ellir ei llenwi ymlaen llaw gan system ar-lein AGC. Bydd hyn yn creu cost ychwanegol o ran amser staff, y gellid ei wario ar faterion pwysicach sy'n ymwneud â rhedeg y gwasanaeth. Mae darparwyr yn parhau i fod o dan bwysau eithriadol yn delio ag effeithiau'r pandemig, sy'n gwaethygu problemau'r gweithlu.

Mae'r tabl isod yn cymharu'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer datganiad blynyddol llawn yn erbyn y gofynion ar gyfer datganiad byrrach. Rhaid i **ddatganiad llawn** gynnwys yr wybodaeth a ragnodir yn yr Atodlen i Reoliadau Datganiadau Blynyddol 2017 yn ogystal â'r wybodaeth a nodir yn Adran 10 o

Ddeddf 2016. Dim ond lefel y manylder sy'n ofynnol i fodloni gofynion cyfreithiol Adran 10 o Ddeddf 2016 y mae'n rhaid i **ddatganiad byrrach** ei gynnwys.

Bydd yr amser y bydd yn ei gymryd i ddarparwyr gwblhau pob math o ddatganiadau blynyddol yn amrywio yn seiliedig ar eu maint, nifer y gwasanaethau y maent yn eu darparu a'u trefniadau cadw cofnodion. Fodd bynnag, mae AGC wedi darparu amcangyfrifon o'r amser y bydd yn ei gymryd i ddarparwyr gwblhau datganiad blynyddol yn y tabl isod:

<b><u>Datganiad Blynyddol Byrrach</u></b>
<b>Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o fewn Adran 10 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016</b>
<b>10 Datganiad blynyddol</b>
(1) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth gyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol y mae'r darparwr wedi cofrestru ynddi.
(2) Rhaid i ddatganiad blynyddol gynnwys—
(a) yr wybodaeth ganlynol—
(i) y gwasanaethau a reoleiddir y mae'r darparwr gwasanaeth wedi'u cofrestru i'w darparu <b>[wedi'i lenwi ymlaen llaw o gronfa ddata AGC]</b>
(ii) y lleoedd y mae'r darparwr wedi'i gofrestru i ddarparu'r gwasanaethau hynny ynddynt, ohonynt neu mewn perthynas â hwy; <b>[wedi'i lenwi ymlaen llaw o gronfa ddata AGC]</b>
(iii) enw'r unigolyn cyfrifol sydd wedi cofrestru mewn perthynas â phob lle o'r fath; <b>[wedi'i lenwi ymlaen llaw o gronfa ddata AGC]</b>
(iv) y dyddiad y daeth cofrestriad y darparwr i rym mewn perthynas â phob gwasanaeth a lle a reoleiddir; <b>[wedi'i lenwi ymlaen llaw o gronfa ddata AGC]</b>
(v) manylion unrhyw amodau eraill a osodir ar gofrestriad y darparwr gwasanaeth; <b>[wedi'i lenwi ymlaen llaw o gronfa ddata AGC]</b>
(vi) manylion nifer y personau y rhoddodd y darparwr ofal a chymorth iddynt yn ystod y flwyddyn wrth ddarparu pob gwasanaeth o'r fath; <b>[rhwng 5 a 45 munud]</b>
(vii) unrhyw wybodaeth am hyfforddiant a gynigir neu a gyflawnir mewn perthynas â phob gwasanaeth o'r fath a ragnodir; <b>[heb ei gynnwys yn y datganiad byrrach]</b>
(viii) unrhyw wybodaeth am gynllunio'r gweithlu a ragnodir; <b>[heb ei gynnwys yn y datganiad byrrach]</b>
(ix) unrhyw wybodaeth arall a ragnodir <b>[heb ei gynnwys yn y datganiad byrrach]</b> a

(b) datganiad sy'n nodi sut y mae'r darparwr gwasanaeth wedi cydymffurfio ag unrhyw reoliadau a wnaed o dan adran 27(1) sy'n pennu safon y gofal a'r cymorth y mae'n rhaid i ddarparwr gwasanaeth eu darparu (gweler adran 27(2)). [wedi'i ostwng i set o 4 datganiad y gall darparwyr eu dewis fel y rhai mwyaf perthnasol ar gyfer eu gwasanaeth]

(3) Rhaid i ddatganiad blynyddol fod ar y ffurf ragnodedig.

(4) Rhaid cyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru o fewn y terfyn amser rhagnodedig.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi pob datganiad blynyddol a gyflwynir o dan isadran (1).

**Cyfanswm yr amser a amcangyfrifir i'w gwblhau a'i wirio: rhwng 10 a 50 munud**

### **Datganiad Blynyddol Llawn**

**Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o fewn yr Atodlen i Reoliadau Gwasanaethau a Reoleiddir (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017**

#### **Gwybodaeth gyffredinol**

1. Manylion cyswllt [wedi'i llenwi ymlaen llaw o gronfa ddata AGC]

#### **Gwybodaeth am yr unigolyn cyfrifol**

2. Enw'r unigolyn cyfrifol. [wedi'i llenwi ymlaen llaw o gronfa ddata AGC]

#### **Gwybodaeth am staffio**

3. Enw'r rheolwr. [wedi'i llenwi ymlaen llaw o gronfa ddata AGC]

4. Cyfanswm nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn (gan gynnwys swyddi wedi'u llenwi a swyddi gwag). [30 munud]

5. Nifer y swyddi wedi'u llenwi a swyddi gwag ym mhob un o'r categorïau canlynol—

- (a) rheolwr;
- (b) dirprwy reolwr;
- (c) staff goruchwyllo arall;
- (d) staff gofal nyrsio;
- (e) nyrsys cofrestredig;
- (f) uwch staff gofal cymdeithasol sy'n darparu gofal uniongyrchol;
- (g) staff gofal cymdeithasol arall sy'n darparu gofal uniongyrchol;
- (h) staff domestig;
- (i) staff arlwyo;
- (j) mathau eraill o staff nad ydynt wedi'u rhestru uchod.

[45 munud]

6. Os yw nifer y staff a gyflogir yn cynnwys staff o fath nad ydynt wedi'u rhestru ym mharagraff 5(a) i (i), bydd angen manylion y math neu'r mathau o staff o'r fath. [30 munud]
7. Cyfradd trosiant staff [cyfrifiad awtomatig]
8. Y mathau o drefniadau cytundebol y cyflogir staff arnynt a nifer y staff a gyflogir ar bob math o drefniant cytundebol ym mhob un o'r categorïau a restrir ym mharagraff 5. [30 munud]
9. Cymwysterau'r staff a gyflogir ym mhob un o'r categorïau a restrir ym mharagraff 5. [30 munud]
10. Manylion unrhyw hyfforddiant perthnasol a wnaed gan staff a gyflogir ym mhob un o'r categorïau a restrir ym mharagraff 5 yn ystod y cyfnod y cawsant eu cyflogi gan y darparwr gwasanaeth [1.5 awr]

**Gwybodaeth am y ddarpariaeth gwasanaeth**

11. Manylion am raddfa'r ffioedd sy'n daladwy gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf [30 munud]
12. Manylion yr ieithoedd a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaeth [wedi'i lenwi ymlaen llaw o gronfa ddata AGC]
13. Manylion unrhyw ddulliau cyfathrebu di-eiriau a ddefnyddir [20 munud]
14. Cyfanswm nifer y cwynion ffurfiol a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf a chyfran y cwynion hynny na chawsant eu cadarnhau, y rhai y cawsant eu cadarnhau'n rhannol a'u cadarnhau'n gyfan gwbl [45 munud]
15. Manylion y trefniadau a wnaed ar gyfer ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth ynghylch gweithrediad y gwasanaeth a reoleiddir [45 munud]

**Gwybodaeth ychwanegol lle mae'r gwasanaeth yn cynnwys darparu llety**

16. Patrymau sifft nodweddiadol y staff a gyflogir, sy'n dangos nifer y staff ym mhob un o'r categorïau a restrir ym mharagraff 5(d), (e), (f) a (g) sydd ar ddyletswydd yn ystod pob sifft [1 awr]
17. Nifer yr ystafelloedd gwely senl a'r ystafelloedd gwely a rennir [10 munud]
18. Nifer yr ystafelloedd gwely sydd â chyfleusterau en suite. [10 munud]
19. Nifer y lolfeydd/ystafelloedd bwyta cymunedol. [10 munud]
20. Nifer yr ystafelloedd ymolchi sydd â chyfleusterau ymolchi â chymorth. [10 munud]

21. Manylion unrhyw ardaloedd y tu allan y mae preswylwyr yn gallu eu defnyddio. [10 munud]

22. Manylion unrhyw gyfleusterau eraill y mae'r preswylwyr yn gallu eu defnyddio. [10 munud]

**YNGHYD Â'R GOFYNION A NODIR O DAN ADRAN 10 O'R DDEDDF:**

- unrhyw wybodaeth am gynllunio'r gweithlu a ragnodir; [45 munud]
- datganiad sy'n nodi sut y mae'r darparwr gwasanaeth wedi cydymffurfio ag unrhyw reoliadau a wnaed o dan adran 27(1) sy'n pennu safon y gofal a'r cymorth y mae'n rhaid i ddarparwr gwasanaeth eu darparu (gweler adran 27(2)) [2 awr]
- Gofynion eraill a nodir yn yr adran gyntaf (uchod) [10 i 50 munud]

**Cyfanswm yr amser a amcangyfrifir y bydd yn ei gymryd i ddarparwyr gwblhau datganiadau blynyddol:**

- 9 awr– 9 awr 50 munud (os nad oes gan y darparwr lety)
- 11 awr – 11 awr 50 munud (os oes gan y darparwr lety)

Bydd costau ychwanegol hefyd i AGC o dan opsiwn un. Wrth baratoi datganiadau blynyddol llawn, mae perygl y bydd darparwyr yn cyflwyno gwybodaeth bersonol am unigolion sy'n defnyddio eu gwasanaethau a allai fynd yn groes i reoliadau UKGDPR.

Gan mai Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r datganiadau blynyddol, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gydymffurfio â gofynion UKGDPR. Golyga hyn y byddai angen darllen a gwirio'r holl ddatganiadau blynyddol cyn eu cyhoeddi, a fyddai'n defnyddio llawer iawn o adnoddau. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn gymesur i ddargyfeirio capasiti arolygwyr at y dibenion hyn ar yr adeg y mae angen arolygiadau o wasanaethau a reoleiddir, a fyddai'n amharu ar ymdrechion AGC i gefnogi'r sector i adfer ac ailadeiladu.

Ni fydd hyn yn broblem ar gyfer datganiadau blynyddol byrrach gan y bydd y rhan fwyaf o'r wybodaeth yn yr adroddiadau hyn yn dod yn awtomatig o system AGC ac ni fydd cyfle i ddarparwyr ychwanegu testun rhydd a allai gynnwys gwybodaeth bersonol yn anfwriadol.

### **Risgiau**

O dan opsiwn un, mae risg na fydd gan ddarparwyr gwasanaethau y gallu na'r amser i gwblhau datganiadau blynyddol llawn ar gyfer 2021-22 erbyn 26 Mai 2022, a datganiadau byrrach ar gyfer blynyddoedd blaenorol. Gallai hyn arwain at fwy o straen i reolwyr o ran cynnal ymarfer sy'n debygol, o reidrwydd, o fod yn llai o flaenoriaeth na rheoli gwasanaeth o ddydd i ddydd sy'n dal i wella o effeithiau'r pandemig.



Gallai arwain at reolwyr yn cyflwyno datganiadau blynyddol sy'n cynnwys gwallau a gwybodaeth bersonol anfwriadol a fyddai'n cymryd mwy o amser i arolygwyr AGC eu nodi a'u hadolygu.

Pe na bai darparwyr yn cydymffurfio â'r gofyniad, oherwydd y pwysau sydd arnynt, byddai hyn yn ei dro yn creu gwaith ychwanegol a baich amser i AGC reoli ac ymateb yn briodol, yn unol â'i pholisi Sicrhau Gwelliant a Gorfodi.

### **Manteision**

Bydd ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gyflwyno datganiad blynyddol llawn ar gyfer 2021-22 erbyn 26 Mai 2022 yn ogystal â datganiadau blynyddol byrrach ar gyfer blynyddoedd blaenorol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i'r cyhoedd, Gofal Cymdeithasol Cymru, AGC a Gweinidogion Cymru am agweddau allweddol ar wasanaethau a reoleiddir yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Gallai cael gwybodaeth fanylach sydd ar gael i'r cyhoedd am wasanaeth, yn gynharach yn y flwyddyn, fod o fudd i bobl sydd wrthi'n dewis gwasanaeth addas iddyn nhw eu hunain neu i'w hanwyliaid ar hyn o bryd.

Gallai data'r gweithlu ar gyfer 2021-22 fod yn ddefnyddiol fel rhan o waith llunio polisiâu Llywodraeth Cymru a dealltwriaeth o allu'r gweithlu a'r pwysau arno, yn ogystal ag ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru.

### **Opsiwn dau: Gwneud Rheoliadau diwygio newydd**

#### **Costau**

Nid oes unrhyw gostau ariannol ychwanegol yn gysylltiedig â gwneud Rheoliadau Diwygio 2022, gan fod y Rheoliadau hyn yn oedi ac yn lleihau'r gofynion presennol ar gyfer cyflwyno datganiadau blynyddol.

#### **Manteision**

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod gohirio'r gofyniad i ddarparwyr gyflwyno datganiadau blynyddol am 5 mis arall, tan 31 Hydref 2022, yn ddull cymesur o leddfyr'u baich gweinyddol ar ddarparwyr yn ystod cyfnod o bwysau eithriadol o ganlyniad i reoli'r cyfnod pontio hwn o'r ymateb COVID brys, yn ôl i fusnes fel arfer.

Mae'r opsiwn hwn hefyd yn ceisio lleihau'r baich gweinyddol ar ddarparwyr drwy ddileu, o fewn y datganiad blynyddol ar gyfer 2021-22, y dosbarthiadau ychwanegol o wybodaeth y mae Rheoliadau Datganiadau Blynyddol 2017 yn gofyn amdanynt ar hyn o bryd. Mae'r dull hwn yn dod â'r cyfnod 2021-22 yn unol â'r gofyniad ar gyfer blynyddoedd ariannol cynharach.

Mae AGC wedi ymgysylltu â Fforwm Gofal Cymru, sy'n cynrychioli darparwyr gofal cymdeithasol ledled Cymru, ynglŷn â'r dull arfaethedig hwn, ac mae'r dull wedi'i gefnogi.

## Risgiau

Mae risg fach i enw da Gweinidogion Cymru wrth weithredu'r opsiwn hwn. Er bod Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol ar yr adeg hon o bwysau aruthrol ar ddarparwyr gwasanaethau i ohirio cyflwyno'r holl ddatganiadau blynyddol am 5 mis arall a lleihau'r gofynion gwybodaeth ar gyfer 2021-22, mae risg o feirniadaeth yn sgil creu oedi pellach cyn cyflwyno datganiadau blynyddol, gan ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio ers i rai darparwyr gofrestru eu gwasanaethau o dan Ddeddf 2016.

Gall yr opsiwn hwn hefyd ddenu rhywfaint o feirniadaeth bod y datganiadau blynyddol byrrach wedi'u symleiddio cymaint nes eu bod yn ddiwerth. Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd o dan adran 10(4) o Ddeddf 2016 i gyhoeddi'r datganiadau, sy'n golygu y bydd yr ateb hwn yn weladwy i'r cyhoedd.

Mae perygl hefyd na fydd gwybodaeth bwysig am wasanaeth, a fyddai wedi bod yn ofynnol o dan Reoliadau Datganiadau Blynyddol 2017, yn cael ei chyflwyno i AGC. Gellir ystyried bod hyn yn risg mewn perthynas â goruchwyllo gwasanaethau a reoleiddir. Fodd bynnag, mae gan AGC y pŵer i ofyn am wybodaeth gan ddarparwyr, megis eu hadolygiadau ansawdd gofal bob chwe mis, ac mae'n gwneud hynny fel rhan o'i phroses arolygu. Mae hefyd yn ofynnol i ddarparwyr hysbysu AGC (ac eraill perthnasol) am newidiadau neu ddiwyddiadau a allai effeithio ar ddiogelwch eu gwasanaethau neu ar ddiogelu unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth.

O ystyried mai diben datganiadau blynyddol yw darparu gwybodaeth wrthrychol, dryloyw a chymaradwy i'r cyhoedd am wasanaethau a reoleiddir, mae perygl y bydd gohirio'r gofyniad i gyflwyno datganiadau blynyddol ymhellach a lleihau'r gofynion o ran gwybodaeth ar gyfer datganiadau 2021-22 yn creu bwlch mwy o ran darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am wasanaethau a reoleiddir. Caiff hyn ei liniaru'n rhannol gan lansiad cyhoeddus gwefan [Cartrefigofal.cymru](http://Cartrefigofal.cymru) yn ddiweddarach yn y flwyddyn, sy'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r cyhoedd am wasanaethau cartrefi gofal, gan gynnwys gwybodaeth am lefydd gwag.

## Casgliad

O ystyried bod darparwyr gwasanaethau yn parhau i fod o dan bwysau aruthrol o ganlyniad i bandemig COVID-19 a'u bod yn canolbwyntio ar reoli'r pontio o ymateb brys i fusnes fel arfer, mae'n gymesur ac yn bragmatig i ohirio cyflwyno datganiadau blynyddol am 5 mis arall a lleihau'r gofynion gwybodaeth ar gyfer datganiadau 2021-22, yn unol â blynyddoedd blaenorol. Bydd hyn yn dangos parodrwydd i wrando ar y sector gofal a'i gefnogi ar adeg eithriadol o anodd, gan sicrhau bod rheolwyr yn blaenoriaethu gofal a chymorth i bobl. Rydym yn bwriadu cyflwyno datganiadau blynyddol llawn ar gyfer 2022-23 erbyn 26 Mai 2023.

## **Asesu'r Gystadleuaeth**

Prawf hidlo'r gystadleuaeth	
Cwestiwn	Ateb cadarnhaol neu negyddol
<b>C1:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad?	Na
<b>C2:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni dros 20% o gyfran y farchnad?	Na
<b>C3:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a ydy'r tri chwmni mwyaf, gyda'i gilydd, yn cynrychioli o leiaf 50% o'r farchnad?	Na
<b>C4:</b> A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar gynaliadwyedd rhai cwmnïau yn fwy nag eraill?	Na
<b>C5:</b> A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau?	Na
<b>C6:</b> A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr cyfredol eu talu?	Na
<b>C7:</b> A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr cyfredol eu talu?	Na
<b>C8:</b> A oes newidiadau technolegol mawr yn digwydd o fewn y sector?	Na
<b>C9:</b> A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynnyrch?	Na

Mae'r prawf hidlo yn dangos nad yw'n debygol y bydd y rheoliad yn cael unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth. O ganlyniad, ni chynhaliwyd asesiad manwl.

Nid ydym o'r farn bod angen cynnal asesiad cystadleuol ar gyfer y Rheoliadau hyn gan na fyddant yn effeithio ar y sector busnes mewn unrhyw ffordd arwyddocaol.